

News

CARERS

Updates from Rhondda Cynon Taf
Carers Support Project



Wythnos y Cynhalwyr



Wythnos y Cynhalwyr 2024

Mae Wythnos y Cynhalwyr yn ei ôl!

Dydd Llun 10 Mehefin

Ein achlysur '5k to coach'. Dewch i fwynhau taith wrth geisio dod o hyd i'r cliwiau er mwyn ennill ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd rhwng 11am a 1pm. Mae gwobrau i'w hennill!

Dydd Mawrth 11 Mehefin

Achlysuron Arbennig Wythnos y Cynhalwyr
Cysylltiadau Cynhalwyr yn Linc Cwm Cynon, Aberdâr a Cwtch y Cynhalwyr yng Nghanolfan Cynllun Cynnal y Cynhalwyr, Pontypridd.

Dydd Mercher 12 Mehefin

Byddwn ni'n cynnal ein diwrnod gwybodaeth yng Nghanolfan Cynllun Cynnal y Cynhalwyr ym Mhontypridd. Rhagor o wybodaeth isod.

Dydd Iau 13 Mehefin

Bydd sefydliadau eraill yn ymuno â Chynllun Cynnal y Cynhalwyr yng Nghanolfan Chwaraeon Ystrad i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Dydd Gwener 14 Mehefin

Diolch! Galwch heibio YMa, Pontypridd am sgwrs a bingo rhwng 10am a 1.30pm.

Achlysuron i Gynhalwyr Ifainc (18-25 oed) isod.



RHONDDA CYNON TAF

EIN CALENDR CYMORTH

Pryd y mae modd i mi gadw lle ar yr achlysuron yma?

Mae modd i chi gadw lle ar gyfer **Achlysuron Wythnos y Cynhalwyr rhwng 10am a 4pm ddydd Llun 4 Mehefin 2024**.

Mae'r holl achlysuron ar gyfer Cynhalwyr yn unig.

Sut y mae modd i mi gadw lle?

Ffoniwch y Garfan Cynhalwyr ar **01443 281463** neu e-bostiwch CynnalyCynhalwyr@rctcbc.gov.uk

Ble mae'r achlysuron yn cael eu cynnal?

Achlysur/Gweithgaredd/Gweithdy

Achlysuron Cynhalwyr Ifainc

Mae gyda ni achlysuron penodol ar gyfer cynhalwyr ifainc rhwng 18 a 25 oed.

Dydd Llun 10 Mehefin

Bydd ein hachlysur ar gyfer Cynhalwyr rhwng 18 a 25 oed yn cael ei gynnal gyda'r hwyr rhwng 4pm a 7pm. Bydd yr achlysur penodol yma ar gyfer Cynhalwyr Ifainc yn gyfle iddyn nhw wneud crochenwaith a chael hwyl.

Dydd Sadwrn 15 Mehefin

Bydd ein hachlysur llawn gweithgareddau a hwyl ar gyfer Cynhalwyr rhwng 18 a 25 oed yn cael ei gynnal yn y prynhawn rhwng 1pm a 4pm yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen-wen.

Dydd Mercher 12 Mehefin

Diwrnod Gwybodaeth

10am - 11am Nodi Cynhalwyr

11am - 12pm Cymorth i Gynhalwyr

12.30pm - 1.30pm Cymorth Ariannol i Gynhalwyr

1.30pm - 2.30pm Cyngor Cyfreithiol i Gynhalwyr

Achlysuron Arbennig Wythnos y Cynhalwyr

Bydd Cysylltiadau Cynhalwyr yn cael ei gynnal ar 11 Mehefin rhwng 10.30am a 12pm yn Linc Cwm Cynon, Stryd Seymour, Aberdâr, CF44 7BD.

Bydd Cwtch Cynhalwyr yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 11 Mehefin rhwng 6.30pm a 8.30pm.

Dyddiadau Achlysuron Rheolaidd

Siop Siarad (Chatterbox) - 4 Mehefin, 2 Gorffennaf, 6 Awst rhwng 10am a 11.30am

Cysylltiadau Cynhalwyr - 9 Gorffennaf, 13 Awst rhwng 10am a 11.30am

Cwtch Cynhalwyr - 9 Gorffennaf, 13 Awst rhwng 6.30pm a 8pm